**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl**

**29 Medi**

**12.00 – 13.00**

**Rhithwir - Teams**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ken Skates AS | Cadeirydd |
| Simon Jones | Mind Cymru (ysgrifenyddiaeth) |
| Suzanne Duval | Diverse Cymru |
| Richard Jones | Mental Health Matters |
| Jack Martin | Adferiad |
| James Radcliffe | Platfform |
| Emma Gooding | Y Samariaid |
| Kate Heneghan | Papyrus UK |
| Liz Williams | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Jo Whitfield | BEAT Eating Disorders |
| Linda Newton | Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro |
| Sarah Thomas | Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched |
| Valerie Billingham | Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Lesley Richards | Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) |
| Ben Jeffreys | Amser i Newid Cymru |
| Ben Cottam | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Linsey Imms | TUC Cymru |
| Madelaine Phillips | Conffederasiwn GIG Cymru |
| Alfred Oyekoya | Cymorth Iechyd Meddwl BAME |
| Elinor Crouch-Puzey | Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| Amy Bainton | Barnardo's |
| Mair Rigby | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Gerald Cole | Fforwm Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru Gyfan |
| Helen Howson | Comisiwn Bevan |
| James Evans AS | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Rhun ap Iorwerth | Ynys Môn |
| David Goodban | Swyddfa Ken Skates AS |
| Callum McSorely | Swyddfa Huw Irranca Davies AS |
| Andrew Jenkins | Swyddfa Sioned Williams AS |
| Charlotte Knight | Swyddfa Jane Bryant AS |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd Simon Jones (SJ) bawb i gyfarfod cyntaf tymor y Senedd hon o’r Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl. Y mater cyntaf oedd ethol cadeirydd ar gyfer y grŵp. Enwebodd SJ Ken Skates AS (KS) ac eiliwyd gan James Evans AS (JE).

Diolchodd KS i bawb am fod yn bresennol ac enwebodd Mind Cymru yn ysgrifenyddiaeth y grŵp, ac eiliwyd gan JE. Dywedodd KS ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda phawb yn ystod tymor y Senedd hon i sicrhau bod iechyd meddwl yn aros ar frig agenda pob gwleidydd.

**2. Simon Jones, Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Mind Cymru**

Gwahoddodd KS SJ i roi cyflwyniad ar rai o'r themâu a oedd wedi datblygu yn ystod y deunaw mis diwethaf a rhai o'r datblygiadau allweddol sydd ar y gweill, i'r grŵp ystyried blaenoriaethau i’w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cross Party Group on
Mental Health Topics.p

**3. Trafodaeth**

Diolchodd KS i SJ am ei gyflwyniad a gwahoddodd gyfraniadau gan aelodau ynghylch blaenoriaethau.

Tynnodd Lindsey Imms (LI) sylw at y gwaith yr oeddent wedi’i wneud o ran edrych ar gymorth iechyd meddwl yn y gweithle gyda grŵp traws-undebol, a oedd yn nodi darlun amrywiol iawn. Dywedodd Ben Cottam (BC) sut y gallai iechyd meddwl a gwydnwch fod yn ganolog i ddatblygu’r economi ar ôl y pandemig a pheidio â mynd ar goll o fewn unrhyw raglen adfer economaidd. Dywedodd KS fod adnewyddu Contract Economaidd Llywodraeth Cymru yn gyfle allweddol ac yn bosibilrwydd o edrych ar y mater hwn, gan gyd-fynd â'r datblygiad hwnnw.

Soniodd Elinor Crouch Puzey (ECP) am y gwaith yr oeddent wedi’i wneud ac y byddant yn ei wneud o ran iechyd meddwl amenedigol a babanod. Dywedodd Amy Bainton (AB) fod angen gwneud mwy o waith yn ymwneud â iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy’n profi trallod emosiynol ac nid problemau iechyd meddwl o reidrwydd. Roedd Emma Gooding (EG) yn cefnogi hyn o ran yr angen i ystyried profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod gwasanaethau’n cael rhagor o wybodaeth am drawma, er mwyn atal problemau iechyd meddwl rhag gwaethygu.

Dywedodd Suzanne Duval (SD) fod plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn aml yn cael eu hanwybyddu o ran iechyd meddwl, gan gyfeirio'n benodol at gymunedau De Asia. Ychwanegodd Alfred Oyekoya (AO) fod angen edrych ar ba gymorth sydd ar gael i bobl sy'n cyrraedd Cymru yn ogystal ag effaith yr adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut y gellid ei gwella. Tynnodd Ben Jeffries (BJ) sylw at y ffaith eu bod fel ymgyrch yn ymgymryd â gwaith o edrych ar y broblem o stigma o fewn cymunedau BAME.

Gan barhau â'r thema o effaith anghydraddoldeb, awgrymodd Glenn Page (GP) edrych ar sut mae anghydraddoldeb yn effeithio ar fynediad at wasanaethau iechyd meddwl a phrofiadau pobl ohonynt, yn enwedig y rhai sydd mewn tlodi.

Gofynnodd James Evans AS (JE) a fyddai modd gwahodd Chwaraeon Cymru i gyfarfod i amlinellu sut yr oeddent yn sicrhau bod iechyd meddwl yn cael sylw drwy chwaraeon a gweithgaredd corfforol. Awgrymodd SJ y gallai hefyd fod yn werth gwahodd cyrff hyd braich eraill fel Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i weld sut yr oedd iechyd meddwl yn cael ei gefnogi ar draws eu

cylchoedd gwaith. Tynnodd Mair Rigby (MR) sylw at waith yr oedd y Cerddwyr yn ei wneud o ran 'Llwybrau Lles'

Gofynnodd EG sut yr oedd profiadau byw yn cael eu cynnwys yn y grŵp. Ymatebodd SJ gan ddweud bod un neu ddau o gynrychiolwyr o'r fforwm profiadau byw cenedlaethol yn bresennol fel arfer, ond eu bod yn methu dod heddiw yn anffodus. Cytunodd SJ i godi hyn gyda'r fforwm i sicrhau bod cyswllt yn cael ei sefydlu.

**4. Y camau nesaf**

Daeth Ken Skates AS i'r casgliad y byddai'n ddefnyddiol estyn gwahoddiad i'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ddod i gyfarfod yn y dyfodol. Cytunodd y grŵp y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Diolchodd Ken Skates AS i bawb am eu cyfraniad a chytunodd y byddai'r themâu'n cael eu datblygu i bennu rhaglen i'r grŵp ar gyfer y dyfodol, a fyddai'n cael ei ddosbarthu.